

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 3ydd 2017 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (Cadeiryddes), Eilir Rowlands, Iolo Evans, Gwenda Evans, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Alwyn Jones, Rita Jones, y cynghorydd Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Gary Thomas a Gethin Morris.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

i) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

ii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Cofeb Rhyfel Llandderfel.

Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer atgyweirio'r gofeb a chytunwyd i'w gyrru ymlaen i'r cwmni yswiriant. Cynigwyd y dylid edrych i mewn i'r gost o osod bolardiau i ddiogelu'r gofeb rhag i gerbyd ei daro eto. Cytunwyd i ofyn am gyngor gan y contractwyr a Chyngor Gwynedd am y math a fyddai'n dderbyniol.

b) Eglwys Llanfor

Roedd gwahoddiad i'r cynghorwyr ymweld â'r Eglwys a chyfarfod a'r perchnogion newydd nos Iau, Hydref 12fed am 6.30y.h.

c) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Adeilad yr hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon - Yn dilyn ein cwyn i Gyngor Gwynedd ym mis Medi ni chafwyd unrhyw adborth. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Cyngor i bwysu arnynt i gymryd y camau priodol i ddiogelu'r safle gan fod y netiau a oedd yn dal y llechi rhydd yn fregus iawn ac mewn peryg o ddisgyn.

ii) Cartrefi Cymunedol Gwynedd

a) Garejys gwag ystâd Tan y Foel, Llanfor - cafwyd cadarnhad bod ein hymholiad wedi cael ei basio'n mlaen i'r swyddogion perthnasol ac y byddant yn cysylltu yn nol cyn gynted a phosib.

b) Gwaith rendro i waliau allanol eu tai yn Heol Trafalgar - eglurwyd fod y tai wedi derbyn gwaith inswleiddio i'r waliau allanol fel rhan o'r cynllun safonau ansawdd tai Cymru. Roedd y gwaith inswleiddio yn gwella perfformiad thermol y tai ac yn lleihau costau gwresogi ar gyfer eu tenantiaid. Er yr eglurhad nid oedd y cynghorwyr yn teimlo bod y newidiadau yn dderbyniol ac wedi newid cymeriad y tai. Gofynnwyd i'r clerc gyfeirio'r mater ymlaen i CADW.

iii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Enwebu Cynghorwyr ar Gyrrff Llywodraethol yr ysgolion - derbyniwyd cais i'r cyngor enwebu cynrychiolydd i Gyrrff Llywodraethol yr ysgolion cynradd lleol. Roedd y clerc yn ymwybodol for ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn wedi cael ei ffederaleiddio a bod cyrrff llywodraethol unigol yr ysgolion yn dod di ben a'u bod am ffurfio corff llywodraethol ffederal. Gan nad oedd y Cyngor Cymuned wedi cael eu hysbysebu o hyn roedd y clerc wedi anfon am arweiniad ynglŷn ar nifer o gynrychiolwyr oedd angen i'r cyngor eu henwebu (ar hyn o bryd roedd gan y cyngor un cynrychiolydd ar gorff llywodraethol Ysgol Ffridd y Llyn a chynrychiolydd bob yn ail gyda Cyngor Cymuned Llanycil ar gorff llywodraethol Ysgol Bro Tryweryn). Derbyniwyd e-bost yn egluro mae un cynrychiolydd oedd ei angen ond dim cadarnhad os fyddai'r trefniant bob yn ail gyda Chyngor Cymuned Llanycil yn parhau. Nid oedd y cynghorwyr yn fodlon o gwbl

gyda'r ymateb gan Chyngor Gwynedd a chytunwyd yn unfrydol y dylid cael un cynrychiolydd o bob cyngor cymuned gan fod plant o'r ddwy ardal yn mynychu'r ysgolion.

ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Hydref.

iv) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w wrthwynebu gan fyddai'r datblygiad yn rhy amlwg yn y tirlun ac yn weladwy iawn o'r ffordd a'r llwybrau cyhoeddus cyfagos. C17/0650/04/LL - Cais i leoli 3 Yurt Mongolaidd ar gyfer defnydd gwyliau, ynghyd a chawodydd a thoiledau cysylltiol. Lluest Wen, Glan yr Afon.

ii) Derbyniwyd cais am wybodaeth am y datblygiad isod a chytunwyd nad oedd gan y cynghorwyr unrhyw sylwadau i'w nodi.

C17/0836/04/TC - Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o adeilad fel annedd hunan cynhwysol. Bryn Banon, Llanfor.

v) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:- Cyflog y Clerc (Gorff-Medi), a Chyngor Gwynedd (costau etholiad)

vi) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Derbyniwyd cwynion bod dŵr yn hel ar y ffyrdd a bod angen agor y ffosydd/clirio'r draeniau ar y safleoedd canlynol:-

Ffordd Cefnddwysarn i Gwm Main, Maerdy - ger Coed y Bedo, Pentre a Pandy.

Ffordd Llandderfel i Gefnddwysarn - rhwng Ty'n Bwlch a Tŷ Newydd - roedd pryder y byddai'r dŵr yn rhewi ac yn creu problemau i'r bws ysgol.

Safle parcio o flaen Ysgol Ffridd y Llyn – roedd pwll mawr o ddŵr yn hel yno ac nid oedd posib parcio yno. Roedd swyddogion wedi ymweld â'r safle a'r ddiwrnod braf ac felly nid oedd y broblem yn amlwg y diwrnod yno.

ii) Casgliad deunydd ail-gylchu o Fedw'r God, Frongoch - roedd y casgliadau yn anghyson a gofynnwyd a oedd modd atgoffa'r gweithlu i alw i wagu'r cart ail-gylchu.

iii) Clwb Carafanau Cefnddwysarn -Roedd nifer o ymwelwyr yn cael trafferth dod o hyd i'r safle gan fod eu sat-nav's yn eu hanfon trwy Ddinmael i gyfeiriad Llwyn Iolyn ac yn creu trafferth i'r trigolion lleol.

Gofynnwyd i'r clerc anfon at y Clwb i ofyn a oedd posib cywiro'r cyfarwyddiadau i gyfeirio'r ymwelwyr i'r cyfeiriad cywir.